

# Cydbwyso'r cyfrifoldebau am fuddsoddi mewn sgiliau: cynigion ar gyfer buddsoddi ar y cyd mewn darparu sgiliau ôl-19

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

**UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)**  
[PEIDIWCH CYFIEITHU'R ENW HWN]

e-bost/rhif ffôn:

[rebecca@athrawon.com](mailto:rebecca@athrawon.com) / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

**UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU**

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Mai 2014** i:

Ymgynghoriad ar fuddsoddi ar y cyd  
Tîm Polisi Cyflogaeth a Sgiliau  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Tŷ'r Afon  
Heol Bedwas  
Bedwas  
Caerffili  
CF83 8WT

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [employmentandskillspolicy@cymru.gsi.gov.uk](mailto:employmentandskillspolicy@cymru.gsi.gov.uk)

Ticiwch y blychau isod sy'n eich disgrifio orau fel ymatebydd. Ein bwriad yw defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall yn well yr amrywiaeth o randdeiliaid sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar sail eu math, eu maint a'u sector. Yn dibynnu ar nifer yr ymatebion a gawn, caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ochr yn ochr â'n crynodeb o ymatebion. Cofiwch nad oes rhaid i chi gwblhau'r manylion hyn.

### Math o sefydliad

Undeb llafur neu gorff tebyg sy'n cynrychioli gweithwyr unigol	✓
--	---

### Maint (nifer y cyflogeion yng Nghymru)

Micro (0–9 o gyflogeion)	✓
--------------------------	---

### Sector

Addysg	✓
--------	---

**Cwestiwn 1** – Beth yw eich barn chi ar y mesurau arfaethedig o ran perfformiad sgiliau, yn cynnwys pennu'r meincnod cyrhaeddiad ar Lefel 3?

**Ymateb**

Cytuna UCAC â'r uchelgais hwn i godi sgiliau poblogaeth Cymru, a chytunwn ei bod hi'n briodol i anelu at gymwysterau Lefel 3.

**Cwestiwn 2** – Yn eich barn chi, sut y caiff buddsoddi ar y cyd ei ddefnyddio fel ffordd o wella gwerth addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn y gwaith o ddarparu sgiliau lefel uwch?

**Ymateb**

**Cwestiwn 3** – Sut y gellid defnyddio buddsoddi ar y cyd i gefnogi cyflogwyr i ddefnyddio sgiliau eu cyflogeion yn well? A oes enghreifftiau o arfer gorau y gall Cymru ddysgu oddi wrthynt?

**Ymateb**

**Cwestiwn 4** – Beth yw eich barn chi ar sefydlu strwythur prisiau i gynnal lefelau ansawdd, gwerth a phris yn y gwaith o ddarparu cymwysterau a dysgu?

**Ymateb**

**Cwestiwn 5** – Beth yw'r risgiau neu'r problemau a allai o bosibl danseilio'r gwaith o roi polisi buddsoddi ar y cyd ar waith yng Nghymru a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

**Ymateb**

**Cwestiwn 6** – Pa gymhellion ychwanegol y gellid eu defnyddio i gefnogi cyflogwyr i gynyddu eu buddsoddiad yn y system sgiliau, yn cynnwys trefniadau trethu posibl?

**Ymateb**

**Cwestiwn 7** – O dan ba amgylchiadau fydddech chi'n ystyried ei bod yn bwysig ildio neu gyfyngu ar fuddsoddi ar y cyd?

#### **Ymateb**

Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o fuddsoddi ar y cyd mewn sgiliau, mae UCAC yn cytuno bod amgylchiadau pan ddylid ildio neu gyfyngu ar y gofynion i wneud hynny. Gallai hynny fod yn berthnasol pan fydd angen cynyddu cyflymder datblygiad sgiliau penodol, neu i ddatblygu set benodol o sgiliau yn unol ôl gofynion Llywodraeth Cymru ond ble nad oes tystiolaeth o allu neu barodrwydd y cyflogwr i wneud. Mi allai datblygu sgiliau iaith Gymraeg fod yn un enghraifft.

**Cwestiwn 8** – Yn eich barn chi, pa gymwysterau neu ddysgu na ddylent gael eu cefnogi gan unrhyw fath o fuddsoddiad gan y llywodraeth a pham?

#### **Ymateb**

Dylai pob cymhwyster sy'n derbyn buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru fod yn gymhwyster cydnabyddedig – er enghraifft, cymwysterau sydd wedi'u rhestru yng nghronfa data DAQW.

**Cwestiwn 9** – Sut y gellid defnyddio polisi buddsoddi ar y cyd i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg yn y gweithle?

#### **Ymateb**

Mae sgiliau Cymraeg yn greiddiol i nifer o sectorau cyhoeddus (e.e. addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant), a phreifat (e.e. lletygarwch, twristiaeth, diwydiannau creadigol, bwyd, amaethyddiaeth) a'r trydydd sector.

Cytunwn fod angen mynd ati i annog cyflogwyr i gyd-fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant yn y maes hwn - fel gyda phob sgil arall y bernir ei fod yn werthfawr.

Mae'r adroddiad diweddar 'Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector' (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth; Rhif 47/2014) yn awgrymu nad yw cyflogwyr bob amser yn deall gwerth y sgiliau hyn i'w sectorau, sefydliadau neu fusnesau - er yn aml bod galw mawr ymhlith eu defnyddwyr/cwsmeriaid. Yn aml, diffyg ymwybyddiaeth ar lefel rheolaethol sy'n arwain at y diffyg hwn.

Mae'r Deyrnas Gyfunol wedi'u beirniadu droeon gan Bwyllgor Cyngor Ewrop (COMEX), sy'n goruchwyllo'r Siarter Ewropeaidd ar leithoedd Lleiafrifol neu Ranbarthol am y diffyg defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Ymhlith 6 argymhelliad y Pwyllgor ym mis Ionawr eleni oedd: "take concrete steps to further increase the use of Welsh in health and social

care.”

[http://www.coe.int/t/dg4/education/minlang/Report/Recommendations/UKCMRec4\\_en.pdf](http://www.coe.int/t/dg4/education/minlang/Report/Recommendations/UKCMRec4_en.pdf)

Cafodd argymhellion tebyg eu gwneud ym mhob un o adroddiadau'r Pwyllgor, ym mis Mawrth 2004, mis Mawrth 2007 a mis Ebrill 2010:

[http://www.coe.int/t/dg4/education/minlang/Report/default\\_en.asp#United](http://www.coe.int/t/dg4/education/minlang/Report/default_en.asp#United)

Efallai felly mai dyma un o'r meysydd ble y byddai angen naill ai cyfyngu rhywfaint ar y gofyniad am gyd-fuddsoddi, o leiaf am gyfnod cychwynnol, nes bod cyflogwyr yn gweld budd y sgiliau (gallai hyn fod yn berthnasol i rai sectorau), NEU osod elfen o orfodaeth ar ffurf trethu, fel y crybwyllir yn y ddogfen ymgynghorol (yn addas ar gyfer sectorau eraill).

**Cwestiwn 10** – Y tu hwnt i Sgiliau Hanfodol i Lefel 2, pa feysydd sgiliau eraill sy'n hanfodol, yn eich barn chi, i ddarparu'r sylfaen ar gyfer gwella lefelau sgiliau yng Nghymru? Sut y gall buddsoddi ar y cyd gael ei ddefnyddio i gefnogi'r meysydd sgiliau hyn?

**Ymateb**

Mae addysg gymunedol yn eithriadol o bwysig, ac yn gallu cynnig llwybr ar gyfer datblygu sgiliau a fydd yn y pendraw yn arwain yn ôl at y gweithle. Rhaid pwysleisio pwysigrwydd cyrsiau llai ffurfiol o ran adeiladu hyder dysgwyr nad ydynt wedi astudio'n ffurfiol ers gadael yr ysgol, o bosib blynyddoedd mawr yn ôl, ac o bosib ar ôl profiadau negyddol yn y system addysg orfodol. Gall cyfleoedd o'r fath fod yn amhrisiadwy, ac ni ddylid eu hanwybyddu yn sgil y ffocws (cymeradwy) ar gyrsiau a chymwysterau ffurfiol.

**Cwestiwn 11** – Sut y gall Adduned Cyflogwr sydd â ffocws newydd gael ei strwythuro i gefnogi cyflogwyr i fuddsoddi yn sgiliau eu gweithlu?

**Ymateb**

**Cwestiwn 12** – Yng nghyd-destun buddsoddi ar y cyd, pa ystyriaethau ddylai gael eu rhoi i gefnogi grwpiau agored i niwed sydd mewn cyflogaeth i ddiwallu eu hanghenion sgiliau?

**Ymateb**

Hoffem ychwanegu 'gweithwyr dros dro' a 'gweithwyr asiantaeth' at y rhestr o grwpiau bregus, hynny yw, y rhai hynny sydd ar gytundebau tymor byr neu'n cael eu cyflogi gan drydydd parti allanol, er enghraifft asiantaeth. Yn aml, oherwydd telerau eu cyflogaeth, mae gweithwyr o fewn y grwpiau hyn yn cael eu heithrio rhag hyfforddiant, ac mae UCAC yn gryf o'r farn y dylent gael yr un mynediad at hyfforddiant â gweithwyr parhaol.

**Cwestiwn 13** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae'r adroddiad OECD diweddar 'Improving Schools in Wales: An OECD Perspective' wedi tynnu sylw at y diffyg Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) o fewn y system addysg yng Nghymru, ac wedi argymhell sicrhau DPP o safon uchel drwy gydol gyrfa addysgwyr - rhaid i hynny gynnwys athrawon, cynorthwywyr dosbarth a staff cymorth, yn ogystal â'r holl categorïau hyn o fewn colegau Addysg Bellach (nad oeddynt yn rhan o'r adroddiad).

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

Diolch am roi o'ch amser i ymateb. Nid ydym yn bwriadu cydnabod ymatebion unigol oni ofynnir am hynny. Ticiwch yma os hoffech i ni gydnabod eich ymateb: